Hysbysiad o dan Amod VCR1.1(b): 18 Awst 2021

At: Swyddogion cyfrifol yr holl gyrff dyfarnu sy'n cynnig Cymwysterau Categori A a Chategori B o dan y Fframwaith VCR

Mae Cymwysterau Cymru yn hysbysu o dan Amod VCR1.1(b) y bydd y Fframwaith VCR yn cael ei ddatgymhwyso mewn perthynas â phob cymhwyster galwedigaethol[1] fel y nodir isod.

Mae'r hysbysiad hwn hefyd yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbed a wneir o dan Amod VCR1.2(c). Rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â'r darpariaethau trosiannol ac arbed hyn o dan Amod VCR1.3(a).

Datgymhwyso'r Fframwaith VCR

Bydd amod VCR7.2 yn cael ei ddatgymhwyso mewn perthynas â'r holl o gymwysterau galwedigaethol o Fedi 2021, yn amodol ar y darpariaethau trosiannol ac arbed a nodir isod.

Darpariaethau trosiannol ac arbed

Rhaid i gorff dyfarnu barhau i gydymffurfio ag Amod VCR7.2 mewn perthynas ag unrhyw Ddysgwr a ddaeth o fewn Amod VCR3.1 fel ag yr oedd ar 24 Mawrth 2021.

[1] Mae gan delerau yn yr hysbysiad hwn yr un ystyr ag o dan Amodau VCR1.4 a VCR1.8.